Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
GORFFENNAF 2007

DYDDIAD	Nos Fercher, 18fed Gorffennaf, 2007
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Canolfan Cae'r Gors, Rhosgadfan
PRESENNOL	Tom Ellis, Jane Eryl Jones, Meurig Williams, Elwyn Jones, Elin Evans, Gwilym V.Thomas, Jason Hunt, Gwilym L.Williams, Emrys Jones

1. **Ymddiheuriadau**
   Nerys Evans

2. **Croeso**
   Croeso arbennig i aelod newydd, Jane Eryl Jones, Ward Dinas.

3. **Datgan Buddiant**

4. **Cadarnhau cofnodion-** cadarnhawyd fod y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar nos Fercher, Mehefin 20fed, 2007 yn gywir.

5. Materion i'w trafod:
   a) Ymateb gan Steffan Jones ynglyn â materion priffyrdd (3 llythyr): Wal wedi malu rhwng Ysgol Rhosgadfan a'r ciosg; cofeb Kate Roberts & materion eraill a godwyd eisoes. Steffan Jones angen trefnu cyfarfod efo perchnogion tir ger y Neuadd – awgrymu y dylai NW a MW fynychu.
   b) Llythyr a lluniau gan Rheilffordd Ffestiniog yn cwyno am y gwaith adeiladu sy'n digwydd ar y tir ger Bodawen. Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r broblem.
   c) Cyfarfod cyhoeddus efo'r Heddlu wedi'i drefnu ar gyfer nos Fercher, 25ain o Orffennaf yn Neuadd Rhostryfan am 6p.m.
   d) Torri gwrychoedd. Gofynnwyd i GLW gario ymlaen efo'r gwaith i dorri'r gwrychoedd rhwng Ffrwd Cae Du a Rhostryfan, a Dinas a Rhostryfan.
   e) MW – torri gwair oddi fewn i bentrefi Rhosgadfan a Rhos Isaf. Dim ond un waith y flwyddyn sydd ar y cynllun gwaith yn hytrach na tair gwaith. Clerc wedi ysgrifennu at Geraint Hughes, Adran Bwrdeistrefol i geisio gwella'r sefyllfa.
   f) ElJ – nodi fod angen torri'r gwair a'r gwrychoedd ar hyd lein Bryngwyn o Bryn Meillion i fyny. Clerc wedi cysylltu efo Wyn, a'r gwaith wedi'i wneud. Fodd bynnag, mae rhai angen torri'r brigau yn ôl.
   g) EmJ yn nodi fod 'manhole' wedi torri ar y palmant wrth ymyl Hen Efail, Ffrwd Cae Du. Gwaith trwsio wedi'i gwblhau.

h) EmJ yn gofyn tybed oes modd newid yr arwydd newydd yn Ffrwd Cae Du i nodi 'Araf/Slow' yn hytrach na arwydd 'tro'. Wedi derbyn ymateb gan Mel Fôn yn nodi nad ydy'n bosib newid yr arwydd. Clerc i holi os oes modd rhoi arwydd 'Araf/Slow' o dan yr arwydd presennol.

i) Cynllun Uwchgwyrfai - clerc a chlerc Cyngor Llandwrog wedi trafod trefnu cyfarfod cyhoeddus arall yn datgan anfodlonrwydd efo'r sefyllfa.

6. **Derbyn Adroddiadau:**
Cyfarfod oedd wedi'i drefnu ar y 25ain o Fehefin yn y Clwb, Rhosgadfan i drafod datblygiadau yn y chwarel. Adroddodd GVT fod y cyfarfod wedi bod yn llawer llai dadleuol na'r tro diwethaf. Pawb yn weddol hapus ac yn cefnogi'r cynllun. Y bwriad fydd defnyddio mynedfa ger Tan y Foel a Reifl Fawr.

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	17,964.78
Cyfri Siec:	2,610.69
CYFANSWM	20,575.47
Cyflog/costau clerc – mis Gorffennaf	386.57
mis Awst	386.57
Ad-daliad Inkprint	35.97
Cyllid y Wlad	189.86
Canolfan Bro Llanwnda –defnyddio'r neuadd	6.00
Wyn Williams	1,360.00
Neuadd Rhostryfan	25.00
Cronfa Ann T	50.00
GWEDDILL	£18,135.50

Cais am nawdd gan Shelter Cymru – i'w ystyried ym mis Hydref

Materion Cynllunio

CO7A/0369/24/LL – Cae Bach, Maen Coch, Dolydd - Adeiladu ty fforddiadwy – Dim gwrthwynebiad

Eisoes wedi'i ganiatau:
Bryn Llus, Rhostryfan – estyniad un llawr
Ty'n Ffrwd, Rhostryfan – lleihau maint yr annedd

Gohebiaeth:

a) Llythyr gan Aled Evans, Swyddog Tai Fforddiadwy – cywiriad i'r llythyr blaenorol.
b) Cyfadran Adnoddau – gorchymyn cau ffyrdd.
c) Gwahoddiad i gynadleddau: Un Llais Cymru, SLCC ac SLCC Cymru.
d) Ombwdsman Cymru – adroddiad blynyddol. EmJ wedi cymryd golwg arni.
e) Tasg – gwasanaeth cyfieithu
f) Cymdeithas yr Iaith – rhybudd am ddatblygiadau tai anaddas – gwahoddiad i gyfarfod cyhoeddus ar faes yr Eisteddfod.
g) Canolfan Hanes Uwchgwyrfai – taflen wybodaeth
h) Cylchgronnau

9. **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf**:

a) GLW – wal ger Brynglas wedi dod lawr yn dilyn gwaith barbio gan Gyngor Gwynedd
b) GLW – draen wedi blocio ger Dolellog
c) MW – gofyn wrth y gangiau cymunedol ddod i dorri eithin ger Ffridd Terrace, Bryn Myfyr ac i fyny tuag at Penrallt.
d) ElJ – mater brys – angen gofyn wrth berchnogion Tyddyn Canol i glirio'r llwybr sydd ar hyd lein Bryngwyn.
e) ElJ – angen torri'r gwair ar y llwybr sydd ger Bryn Derwen a Glan y Wern
f) ElJ – cwynion ynglyn â pharcio ar y palmant ger Bro Wyled. Holi beth ydy'r posibilrwydd o brynu'r darn tir o flaen rhifau 3 a 4 i wneud mannau parcio.
g) ElJ – gor-yrru yn Rhostryfan. ElJ yn cynnig cyfarfod â Billy Lee a'r heddlu yn sgwar Rhostryfan yn y boreau i asesu'r sefyllfa a cheisio cael 'speed bumps' ar draws y ffordd ger Talybont.

10. Daeth y cyfarfod i ben am 8p.m.

11. **Dyddiad cyfarfod nesaf** – Medi 19eg – i'w gadarnhau.